Athrawon: Gorau Arf y Gyfundrefn

O'r eiliad y penderfynais fy mod am fod yn athro, rwyf wedi fy nghyfareddu a'm herio gan y cwestiwn ynghylch pwy sy'n gwneud athrawon rhagorol a llwyddiannus. Roedd y ffaith ei bod yn ymwneud i raddau helaeth â'u gwybodaeth a'u harbenigedd wrth alluogi disgyblion i gael mynediad i rywbeth arwyddocaol yn amlwg. Roedd hefyd yn glir bod rhywbeth – a oedd bryd hynny ac am sawl blwyddyn wedi hynny – yn anniffiniadwy a di-ddal am y nodweddion, yr arferion a'r tueddiadau personol. Tybiais, o'm profiad anarferol fy hun o fod yn ddisgybl ysgol uwchradd, fod 'effaith ysgol' yn gysylltiedig â thebygolrwydd athrawon o fod yn llwyddiannus.[1]

Mae'r achlysur hwn yn rhoi'r her i mi ddiffinio tasg yr athro llwyddiannus, gan amlygu priodweddau, nodweddion a sgiliau ac yn olaf, yn feirniadol efallai, gan godi'r llen ar arferion yr ystafell ddosbarth a safbwynt yr athrawon hynny sy'n eithriadol o lwyddiannus gyda bron pob disgybl sy'n ddigon ffodus i ddod ar eu traws. Byddaf hefyd yn sôn yn fras am y ffactorau 'o fewn ysgol' ac 'ysgol gyfan' sy'n cynyddu tebygolrwydd athrawon o fod yn llwyddiannus.
Rwyf wedi dod yn fwy hyderus ynghylch y dasg hon o ganlyniad i rai digwyddiadau sy'n ymddangos yn ddigysylltiad. Gadewch i mi esbonio.

Dair blynedd yn ôl gofynnwyd i mi draethu darlith Goffa Brian Simon Caroline Benn. Yn naturiol, dewisais drafod addysg ysgolion cyfun gan ddadlau rywfaint yn ddadleuol bod ysgolion cyfun, mewn ardaloedd trefol o leiaf, wedi bod yn dwyll i raddau helaeth erioed. Dechreuais trwy ddadansoddi'r barnau gwahanol a ysbrydolodd yr arloeswyr cynnar – y cyntaf yn Sir Fôn wrth gwrs. Roedd ganddynt ddwy farn ychydig yn wahanol. Y farn gyntaf oedd bod ysgol gyfun yn un a oedd yn cynnwys poblogaeth o ddisgyblion a oedd yn adlewyrchu dosbarthiad gallu 'fel cromlin cloch' – yn fras, roedd deallusrwydd yn cael ei ystyried yn gyffredinol yn rhywbeth wedi ei etifeddu a sefydlog yn bennaf, neu'n rhagweladwy o leiaf. Yn fras, roedd yn farn ynghylch gallu a oedd wedi

cyfiawnhau'r defnydd o brofion dethol yn un ar ddeg oed er mwyn nithio 'grawn' yr ysgol ramadeg wrth 'us' yr ysgol uwchradd fodern. Roedd yr ail farn yn un a oedd yn ystyried yr ysgol gyfun yn un a oedd yn derbyn pob disgybl waeth beth oedd eu gallu neu eu cefndir o gymdogaeth yr ysgol.

Dadleuais – yn gwbl resymol, yn fy marn i – nad oedd y naill fodel na'r llall wedi ei gyflwyno yn y rhan fwyaf o ardaloedd trefol mawr am fod argaeledd hawdd ysgolion amgen yn arwain at drefn flaenoriaeth ymysg ysgolion p'un a oedd yr arfer o ddethol plant yn un ar ddeg oed ar waith ai peidio.

Ym mhapur Caroline Benn/Brian Simon ac yn y trafodaethau a ddilynodd, cefais wahoddiad i ddamcaniaethu ynghylch yr hyn a ysbrydolodd y delfryd cyfun – pa ffordd bynnag y'i ddiffinnir – ac a yw'r delfryd yn dal yn hyfyw ar ryw ffurf.

Deuthum yn argyhoeddiedig bod cymaint o newid wedi digwydd, bod y delfryd cyfun (fel y'i ddadansoddwyd yn wreiddiol o leiaf) wedi darfod ar lefel ymarferol, mewn ardaloedd trefol o leiaf. Yn ogystal, dadleuais y byddai'r delfrydwyr a'i hyrwyddodd yn ddiflino, fel Caroline Benn a Brian Simon, bellach yn dadlau dros rywbeth gwahanol. Wedi'r cyfan, roedd bron pob ardal drefol yn ei dydd yn unddiwylliannol i raddau helaeth. Bellach maent yn amlddiwylliannol. Mae'r byd heddiw yn llai ac yn lle llawer mwy uniongyrchol ryngysylltiedig. Felly dadleuais, er enghraifft, y dylai'r cwricwlwm fod yn rhyngwladol a dylai materion cynaliadwyedd fod yn rhan ganolog ohono. Dadleuais felly am newid y cwricwlwm. Ond rwyf hefyd wedi hyrwyddo newid sefydliadol – yn anad dim er mwyn goresgyn effeithiau dinistriol ac anghyfiawn y drefn flaenoriaeth ymysg ysgolion.

Diolch i TGCh, gall ysgolion fod yn rhyngddibynnol mewn llawer o'u harferion. Felly gellir fwy neu lai oresgyn y ffaith nad oes unrhyw ysgol erioed wedi gallu bodloni anghenion ei holl ddisgyblion drwy gael grwpiau o ysgolion i gydweithio er budd amrywiaeth o ddisgyblion – datblygiad proffesiynol, cyfoethogi'r cwricwlwm, defnydd gwell o'r technolegau dysgu a chyfathrebu ac wrth gwrs profiadau disgyblion a mynediad at arbenigedd wedi ei rannu.

Yn fras felly, dadleuais dros ddelfryd newydd o ysgolion colegol yn ymrwymedig i ryngddibyniaeth, rhyng-genedlaetholdeb a chynaliadwyedd. Ni allwn weld llawer o gysylltiad, os o gwbl, rhwng y delfryd cyfun gwreiddiol a realaeth ysgolion presennol – heb sôn am ei ddyfodol.

Ond rwy'n sylweddoli bellach fy mod wedi esgeuluso un llinyn parhaus, digyfnewid, cryf.

Y llinyn hwnnw yw nodweddion, agweddau, diben, credoau ac ymddygiad yr athrawon a gafodd eu denu i addysgu yn yr ysgolion cyfun hynny ac sy'n addysgu mewn ysgolion trefol nawr a gobeithio y byddant yn parhau i ymroddi eu gwaith 'sy'n newid cymdeithas' yn y dyfodol. Maent ***hwy*** heb newid. ***Hwy*** yw llinyn parhad. ***Hwy*** yw'r bobl sy'n cysylltu'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Ond fy namcaniaeth i yw bod y goreuon o'r athrawon hyn yn arbennig iawn ac y gallwn ddysgu o'u harferion hwy. Yn fras, rwyf yn dadlau, yn ogystal â'r galluoedd, credoau, agweddau, diben ac ymddygiad arferol a ddisgwyliwn gan bob athro da – a mawr yw ein dyled iddynt – eu bod yn rhoi rhywbeth mwy.

Y 'rhywbeth mwy' hwnnw yw diben fy mhapur heddiw. Ac yng Nghymru y deuthum ar draws y 'rhywbeth mwy' am y tro cyntaf, yn y 1960au. Roeddwn wedi bod yn athro fy hun mewn Ysgolion Gramadeg ac Ysgolion Uwchradd Modern ac roeddwn wedi mynd i fyd gweinyddiaeth addysgol. Yr athrawes y cofiaf ddod ar ei thraws oedd Mrs Lewis: roedd yn dysgu yn ysgol gynradd Croesyceiliog yng Nghwmbrân. Fel y dywedodd ei phennaeth, "Mae pob plentyn yn nosbarth Mrs Lewis yn dysgu darllen. Nid wyf yn gwybod beth ydyw amdani ond mae'n cael y gorau o'r plant – yr holl blant". Roedd yn serchog, hapus, optimistaidd ac yn llawn egni. Ond eto, mae'r rhan fwyaf o athrawon llwyddiannus yn meddu ar y nodweddion hyn. Roedd wedi dysgu'r sgil o wneud pethau ar yr un pryd yn ystod gwers ac roedd ei hystafell ddosbarth yn drefnus ac yn cynnwys y math o arddangosiadau a oedd, yn gyntaf yn dathlu cynnydd pob plentyn, yn ail yn gofyn

cwestiynau, yn drydydd yn atgyfnerthu iaith a mathemateg – “sgiliau sylfaenol sy’n arwain at hawliau dynol”, fel y galwodd hwy – ac yn bedwerydd a oedd yn brydferth. Ond eto, mae pob athro llwyddiannus yn gwneud hynny.

Roedd Mrs Lewis hefyd yn ymarfer yn ddidrafferth yr hyn sy’n digwydd yr ochr arall i Glawdd Offa y mae’r llywodraeth yn ei alw’n ‘bersonoli’. Wrth gwrs, nid oedd Mrs Lewis yn ei alw’n hynny. Byddai hi fwy na thebyg wedi cysylltu’r gair personoli â phlâtiau rhif ceir neu gyfflincs ac yn credu ei fod yn cynrychioli rhyw fath o rodres ansicr a oedd yn sarhau chwaeth da. Ond o ran yr ystyr y mae’r llywodraeth bellach yn ei bwriadu ar gyfer y gair, roedd hi fel pob athro da yn ymarfer ‘personoli’. Mewn geiriau eraill, fel pob athro cynradd roedd yn ymdrechu i ddefnyddio’r holl fathau o ymddygiad a oedd yn gwneud ei hymarfer yn ‘bersonol’ yn hytrach nag yn ‘amhersonol’. Roedd yn haws i Mrs Lewis nag oedd i’w chydweithwyr uwchradd. Maent hwy yn aml yn addysgu 200 i 300 o ieuenctid anodd bob wythnos: maent yn treulio llawer o amser paratoi yn yr hydref – yn wir cyn i’r tymor ddechrau – yn rhoi enwau i wynebau fel y gallant ddefnyddio’r enwau wrth gyfarch yn y coridorau yn ystod oriau cinio ac amseroedd egwyl – yn ogystal, wrth gwrs, ag mewn gwersi. Mae’r athrawon uwchradd hyn yn pennu cynlluniau eistedd – yn hytrach na rhoi dewis rhydd i ddisgyblion. Maent yn cofio penblwyddi: maent yn defnyddio llwyddiannau disgyblion yn y gorffennol i roi canmoliaeth oblygedig yn gyhoeddus, “Dosbarth 7, onid helpodd Jane ni i ddatrys y broblem hon yr wythnos diwethaf. Jane, allwch chi ...?” Maent yn rhannu cwestiynau yn deg ac mewn ffordd sy’n atgyfnerthu hyder y disgyblion wrth wella eu gorau blaenorol.

Mae ganddynt ystod o dasgau y mae’r disgyblion yn eu cyflawni – ar ôl gwneud cais am swyddi amrywiol rheolwyr dosbarth – presenoldeb, gofalu am y cyfrifiadur, trefnu adnoddau, casglu gwaith ac ati. Maent yn defnyddio arfer marcio sy’n gwneud i’r myfyrwyr deimlo’n arbennig trwy ddarparu adborth ysgrifenedig estynedig preifat i bob myfyriwr ddwywaith y flwyddyn o leiaf ac yn eu harferion arferol maent yn feistri ar yr hyn yr ydym yn ei alw bellach yn ‘asesu ar gyfer dysgu’. Mewn geiriau eraill, mae eu holl bobl ifanc yn deall cam nesaf eu dysgu a’r hyn y mae’n rhaid iddynt ei wneud i gaffael y sgil, deall y cysyniad neu

gaffael y wybodaeth am fod eu hathro wedi ei hesbonio iddynt. Ac maent wedi'i thrafod gyda chydweithiwr pâr arall (cyd-ddysgwr, cyd-athro os mynnwch) ac maent wedi dechrau meistroli'r grefft o hunanasesu eu gwaith. Pan fydd yr athrawon hyn yn dod ar draws disgybl nad ydynt yn gallu cysylltu â hwy – gan fethu â chyrraedd eu meddyliau a'u calonnau – maent yn mynd allan o'u ffordd ar y penwythnos i ddod o hyd i arteffact neu erthygl sy'n gysylltiedig â diddordeb personol preifat y person ifanc ac ar y dydd Llun maent yn eu stopio yn y coridor ac yn dweud "Sean, gwelais hwn a meddyliais amdanat ti".

Wrth gwrs, roedd Mrs Lewis yn athrawes gynradd – a gwnaeth yr holl bethau hyn mewn ffordd ychydig yn wahanol gan fanteisio ar y ffaith ei bod yn adnabod ei dosbarth o 30 yn dda iawn.

Fe rannodd, hefyd, gyda'i chydweithiwr cyfatebol yn yr ysgol uwchradd natur anragweladwy addysgu. Roedd rhywbeth yn gweithio 9 gwaith allan o 10 i Mrs Lewis ac yna, yn anesboniadwy, nid oedd yn gweithio. A dyna nodwedd ddiffiniadwy gyntaf arbenigrwydd Mrs Lewis yn dod i'r amlwg. Nid oedd byth yn digalonni.

Roedd yn ystyried methiant plentyn i ddysgu nid fel eu hanallu i ddysgu ond fel ei methiant hi i addysgu – i ganfod ffordd i oresgyn rhwystr y disgybl rhag dysgu.

Roedd Mrs Lewis yn athrawes gyfun gynradd – roedd ei hysgol yn derbyn pob plentyn – ac roedd hi yn llwyddiannus. Yn ei chred hi roedd yn adlewyrchu'r athrawon arloesol mewn ysgolion cyfun a'r rheiny sy'n cael eu denu i ysgolion mewn ysgolion trefol heriol nawr. Beth oedd y credoau hynny? Wel, rydym wedi nodi un – ystyrir anallu plentyn i ddysgu yn her i'w gallu i wella eu haddysgu. Mae'n gytûn â'r pennaeth o oes Fictoria, Thring, sy'n myfyrio am ei yrfa addysgu gynnar ar strydoedd Caerloyw wrth ddweud:-

> *Gwelais yno gyfrinach allwedd aur St Awstin sydd, er yn aur, yn gwbl ddiwerth oni bai ei bod yn ffitio rhiciau'r clo. A chanfuais y rhiciau yr oedd*

yn rhaid i mi eu ffitio – meddyliau'r cryts hynny – ac roeddent yn hynod ac yn boenus iawn hefyd. Ac roedd yn rhaid i mi geisio torri a ffurfio fy hun ar lun allwedd bren a fyddai ag un nodwedd allwedd iddi – waeth pa mor gyffredin yr oedd yn edrych – y nodwedd o ddatgloi meddyliau a chau siambrau'r galon..

Byddai Mrs Lewis wedi uniaethu â hynny. Ond roedd ganddi hi, fel yr athro cyfun hynod lwyddiannus, gredoau eraill hefyd. Gadewch i mi nodi rhai ohonynt.

Wrth gwrs roedd yn credu bod addysgu a dysgu yn gysylltiedig â mantais economaidd. Ond roedd gan hynny ddiben uwch hefyd – un moesol.

Roedd yn gweld addysg fel sylfaen cyfiawnder cymdeithasol, rhyddid gwleidyddol a rhyddid yr unigolyn fel oedolyn i ddadlau achos cyfiawn.

Byddai wedi uniaethu â William Temple a ysgrifennodd ym 1942 …

Nes bod Addysg wedi gwneud llawer mwy o waith nag y mae wedi cael cyfle i'w wneud, ni ellir trefnu cymdeithas ar sail cyfiawnder; am y rheswm hwn bydd straen bob amser … rhwng yr hyn sy'n ddyledus i ddyn o ran ei ddynoliaeth gyda'i holl bwerau a'u alluoedd a'r hyn sy'n ddyledus iddo ar y pryd fel aelod o gymdeithas, gyda'i holl gyneddfau heb eu datblygu'n llawn eto, gyda llawer o'i hoffterau'n wyrdroëdig, gyda'i bwerau'n chwilfriw yn helaeth. Ydych chi'n mynd i drin dyn fel yr hyn y mae, neu fel yr hyn y gallai fod? Mae moesoldeb, rwy'n credu, yn gofyn i chi ei drin fel yr hyn y mae: yr hyn y gallai fod – a'r hyn y mae ganddo'r gallu i fod. Ac mae busnes yn gofyn i chi ei drin fel y mae: ni allwch waredu'r straen hwnnw oni bai eich bod yn codi'r hyn ydyw i'r lefel y gallai fod. Dyna union waith addysg. Rhowch ddatblygiad llawn ei bwerau iddo; ac ni fydd y gwrthdaro rhwng arddeliad dyn fel y mae ac arddeliad dyn fel y gallai fod yn bodoli ac felly ni allwch gael cyfiawnder ar sail eich bywyd cymdeithasol hyd nes bod addysg

wedi gwneud ei gwaith llawn ac eto ni allwch gael unrhyw ryddid gwirioneddol oherwydd nes bod personoliaeth gyflawn dyn wedi ei datblygu ni all fod yn rhydd yn ei fywyd ei hun. Ac ni allwch gael rhyddid gwleidyddol mwy nag y gallwch gael rhyddid moesol nes bod pwerau pobl wedi eu datblygu, am y rheswm syml ein bod yn canfod drosodd a throsodd nad yw dynion ag achos sy'n ... gyfiawn yn gallu ei nodi mewn ffordd a allai ei alluogi i barhau … Mae ffurf feddyliol ar gaethiwed yn bodoli sydd mor real ag unrhyw ffurf economaidd. Rydym wedi addo eu dinistrio... Os ydych yn dymuno rhyddid dynol mae'n rhaid cael pobl addysgedig.

.

Roedd Mrs Lewis yn credu – yn anarferol yn y dyddiau hynny – bod disgyblion a oedd yn ymdrechu'n fawr yn ddangosydd nid o'u gallu cyfyngedig i ddysgu ond o'u cymeriad a fyddai'n eu galluogi, yn y pen draw, i oresgyn rhwystrau rhag dysgu.

Roedd yn siarad am 'ei" phlant, nid y plant "hyn". Ni ystyriodd erioed gyfyngu ar yr hyn y gallai plant ei gyflawni p'un a oedd eu hamgylchiadau gartref yn enbyd ac yn heriol, fel y maent yn aml mewn ardaloedd o angen cymdeithasol mawr, ai peidio. Felly ni groesodd "beth arall y gellir ei ddisgwyl gan blant o gefndiroedd fel hyn?" ei meddwl erioed.

Yn fras, roedd yn credu mewn trawsffurfiadwyedd yn hytrach na gallu plant – ac roedd yn credu, mewn ffordd a oedd yn cysylltu â'i holl blant, y gallai hi greu'r trawsffurfiad hwnnw.

Deuthum ar draws athrawes debyg arall yn ddiweddar mewn ystafell ddosbarth yn Llundain. Ei henw yw Saima Rana – un o'r amryw athrawon Asiaidd ail genhedlaeth sy'n newid cyfleoedd bywyd cymaint o'n plant trefol. Yn nosbarth Ms Rana, mae'n disgwyl i'w holl blant ennill gradd TGAU uwch – hyd yn oed y rheiny â datganiadau.

Nid yw'n gwahaniaethu'r dasg ar gyfer y disgybl – ond yn hytrach yn gwahaniaethu'r ymagwedd o ran ei haddysgu. Mae'n gweithio.

Y llynedd cyhoeddwyd llyfr am addysgu a dysgu y gellir dadlau mai dyma'r llyfr pwysicaf i gael ei ysgrifennu ers 30 mlynedd. Mae'n sicr yn dod yn nes at nodi nodweddion, arferion a chredoau'r athrawon yr wyf yn eu disgrifio. Yr awdur yw Susan Hart ac eraill a'i deitl yw *Learning Without Limits*. Mae'n cymryd naw astudiaeth achos o athrawon y mae eu hymarfer yn seiliedig ar ymagwedd sy'n seiliedig ar drawsffurfiadwyedd yn hytrach na gallu disgyblion, mae'r awduron yn ceisio nodi sawl meddylfryd gwahanol yr wyf wedi eu nodi yn Atodiad Un. A phan fyddaf yn gwirio hyn yn erbyn fy samplau perthnasol – Mrs Lewis bryd hynny, Saima Rana nawr – mae'n taro tant arbennig yn fy nghof.

Mae gan yr athrawon eithriadol o lwyddiannus hyn, fodd bynnag, nodweddion eraill. [gweler Tabl Un.] Yn ogystal â'r tiriogaethau deallusol a gwybyddol maent yn eithriadol o gryf o ran yr hyn yr ydym bellach yn ei alw'n ddeallusrwydd emosiynol. Felly maent yn:

- Adeiladu hyder trwy ystyried cysur eu disgyblion a gofyn cwestiynau gyda llygad graff am yr un sy'n adeiladu gafael y disgybl ar werth eu barn a'u gwybodaeth.
- Atgyfnerthu teimladau'r disgyblion bod eu gallu'n cynyddu trwy sylwadau, trwy dasgau sydd wedi eu cyfeirio i fod yn y presennol ac ar lefel nesaf dysg y disgybl
- Optimistaidd am y dyfodol trwy siarad am lwyddiant disgyblion y gorffennol a'r presennol. "Does neb yn ein dosbarth yn methu – mae pawb yn llwyddo".
- Gwneud i blant uniaethu â dysgu a'r hwyl o ddysgu trwy eu hiaith a'r defnydd o amrywiaeth eang o dasgau – ond hefyd trwy eu hesiampl eu hunain fel dysgwr, trwy'r dasg grŵp ar y cyd lle y maent hwy a'u disgyblion yn dysgu gyda'i gilydd, trwy ddefnyddio'r gair 'dysgu' yn lle'r gair 'gwaith'.

- Sicrhau bod dysgu yn weithgaredd grŵp er enghraifft trwy rannu eu grŵp yn ddau dîm cyfartal sy'n cystadlu o ran canlyniad cyfunol ar gyfer ymddygiad, prydlondeb, canlyniadau dysgu llwyddiannus, cyfraniadau i eraill. Yn y ddau dîm mae pob aelod wedi gosod tasgau, mae ystyr frys i diwtora cymheiriaid am fod llwyddiant cydweithiwr o fudd i bawb. Yn fras mae elfen o 'ddiwylliant gang' yma. Ar gyfer ardaloedd trefol yn enwedig mewn ysgolion uwchradd mae'r athrawon llwyddiannus yn eithriadol o ymwybodol o bwysau gan gymheiriaid a'r diwylliant gang y tu hwnt i glwyd yr ysgol.
- Egluro wrth ddisgyblion bod dysgu yn weithgaredd cydweithredol. Felly dywed yr athro "Nawr, Dosbarth 6, rydym ar fin rhoi cynnig ar y broblem algebra gymhleth iawn hon. Ond os ydym yn cydweithio fe ddylem ei datrys". Ceir rhyw fath o ysbryd cyfunol, sy'n cynnwys yr athro, i ymestyn gorwelion gwybyddol disgyblion i gynyddu eu tebygolrwydd o fod yn ddysgwyr hunanlywodraethol hyderus.
  Gellir gweld canlyniad hyn trwy'r cofnod canlynol o ymweliad ag ysgol gyfun yng Ngogledd Llundain lle cefais y fraint o gyfarfod â 25 o ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9: un o'r cwestiynau a ofynnais iddynt oedd "Pwy sy'n marcio gwaith orau yn eich ysgol chi?" Mae'r atebion yn addysgiadol. Dywedodd un person ifanc mai Mr Hodge yr athro Daearyddiaeth ydoedd, "am ei fod bob amser yn ysgrifennu'r ffyrdd y gellir gwella eich gwaith ar eich gwaith. Ac os nad ydych yn deall, mae'n esbonio". Yn dilyn hyn, dywedodd un arall, "Na, Mrs Bains Saesneg sydd orau. Mae'n gwneud yr un peth ond os ydych ond yn gwneud yr hyn y mae'n dweud wrthych am wneud i wella eich gwaith, fe gewch 'boddhaol' yn unig. I gael 'rhagorol', mae'n rhaid i chi feddwl drosoch eich hun". Aed y tu hwnt i hyn gan drydedd ferch yn datgan mai'r marciwr gorau oedd Mr Bailey yr athro Cerdd. Rwy'n chwarae'r soddgrwth ac yn canu. A phob tro y byddaf yn chwarae neu'n canu gall ddweud wrthyf sut i wella. Ond nawr, pan fyddaf yn chwarae neu yn canu gallaf ddweud fy hun sut i wella … dywed Mr Bailey mai 'metawybyddiaeth' ydyw".

Mae'r stori yn addysgiadol fel y sylweddolwch rwy'n siwr. Nid yw 'marcio' yn weithgaredd sy'n arwain at lawer o drafodaeth frwydfydig yn y mwyafrif o ysgolion. Ym syml, marcio'r gwaith yw terfyn yr uchelgais. Ond yma yn yr ysgol yng Ngogledd Llundain roedd tystiolaeth o drafodaeth lefel uchel am 'farcio' a'i effaith ar ddisgyblion yn ogystal â rhywfaint o dystiolaeth o amrywiaeth yn y gyfadran. Efallai eich bod yn credu fel yr wyf i bod Mr Bailey yn athro eithriadol – a bod Mrs Bains yn eithaf da hefyd yn ymarferol. Nid yw Mr Hodge chwaith yn ddim llai nag athro llwyddiannus iawn. Gallwch ddod i'r casgliad, fel y gwnes i, bod gan yr holl blant yn yr ysgol hon siawns uchel iawn o gael mynediad i rywbeth arwyddocaol ac y byddant yn dod yn hyderus, yn cael eu cefnogi a'u herio i wneud y gorau o'u dysgu.

- Creadigol am y cwricwlwm. Nid yw'n rheidrwydd iddynt hwy dderbyn cynlluniau gwaith penodedig o'r awdurdodau 'uwch'. Maent bob amser yn diwygio ac yn addasu'r cwricwlwm i apelio at y bobl ifanc gwahanol y maent yn dod ar eu traws.
- Dysgwyr eu hunain. Maent ymysg y 4% o athrawon sydd ar unrhyw adeg yn gwneud gradd Meistr neu'n cymryd rhan mewn ymchwil weithredol yn seiliedig ar eu hymarfer. Maent yn cofnodi eu gwaith ac yn myfyrio amdano.

Tabl Un

Mae athrawon sy'n eithriadol o lwyddiannus yn gwneud pob un o'r canlynol. Maent yn:

- Adeiladu hyder
- Atgyfnerthu teimladau disgyblion bod eu gallu'n cynyddu
- Optimistaidd am y dyfodol
- Gwneud i blant uniaethu â dysgu a'r hwyl o ddysgu
- Sicrhau bod dysgu yn weithgaredd grŵp
- Egluro wrth ddisgyblion bod dysgu yn weithgaredd cydweithredol
- Yn greadigol am y cwricwlwm
- Yn ddysgwyr eu hunain

Mae Ms Rana wedi meistroli sgiliau yn ymwneud ag addysgu a dysgu y byddai Mrs Lewis wedi rhoi'r byd i fod wedi eu meistroli ond mae'n dibynnu ar ddatblygiadau yn ein gwybodaeth sydd wedi digwydd ers hynny. Rydym bellach yn gwybod cymaint yn fwy am y ffordd y mae'r ymennydd yn datblygu a'r ffordd y mae'r meddwl yn gweithio. Felly mae'r athro modern yn dangos cwestiynu trefn gyntaf, ail, trydedd a phedwaredd drefn.[2] Ac mae'r athro modern yn mantesio'n llawn ar dechnolegau dysgu a chyfathrebu – p'un ai fel offeryn sy'n goresgyn rhwystrau rhag dysgu a oedd cyn hyn yn anorchfygol, neu fel athro atodol trwy'r rhaglenni dysgu gorau gyda chymorth cyfrifiadur, neu trwy ddefnyddio e-diwtoriaid neu, trwy'r rhyngrwyd, trwy fynediad at y llyfrgell orau yn y byd neu fynediad amser gwirioneddol i sefyllfaoedd dysgu eraill.

Yn fras mae cymaint mwy o blaid Ms Rana nag oedd gan Mrs Lewis. Byddai'r ddwy, fodd bynnag, wedi uniaethu â diffiniad Robert Fried o'r athro angerddol:

> *Gyda rhai o'n hathrawon, rydym yn cofio eu gwendidau a'u nodweddion, gydag eraill, eu caredigrwydd a'u hanogaeth, neu eu teyrngarwch brwd i safonau gwaith nad oeddem ni, fwy na thebyg, yn eu rhannu ar y pryd. A chyda'r rheiny a'n hysbrydolodd fwyaf, rydym yn cofio'r hyn yr oeddent yn poeni gyn ei gylch a'u bod yn poeni amdanom ni, a'r person y gallem fod. Ansawdd y gofal am syniadau a gwerthoedd, cyfaredd y potensial ar gyfer twf mewn pobl, y dyfnder a'r brwdfrydedd hwn ynghylch gwneud pethau'n dda ac ymdrechu tuag at ragoriaeth, sydd agosaf at yr hyn a olygaf wrth ddisgrifio 'athro angerddol'.*

Mae gan Ms Lewis a Ms Rana y rhywbeth anniffiniadwy hwnnw sy'n gwahodd – peri efallai – i'r disgyblion atal eu hanghrediniaeth eu hunain am y cânt eu sicrhau y byddant yn llwyddo. Ac wrth gwrs, maent yn llwyddo.

Ond dywedais ar ddechrau'r papur hwn y byddwn yn ceisio disgrifio'r ffactorau 'o fewn ysgol' ac 'ysgol gyfan' sy'n sicrhau bod Mrs Lewis a Ms Rana yn cael dylanwad ehangach ac yn lluosogi trwy arferion eraill eu sicrwydd 'diymwad' o lwyddiant disgyblion. Yn achos Mrs Lewis, roedd pawb a oedd yn ddigon ffodus i

fod yn ei dosbarth yn dysgu darllen. Ac nid wyf yn golygu rhoi geiriau at ei gilydd neu arthio ar brint. Rwy'n golygu yr hyn y gallwn ei ddisgrifio yn ddarllenydd cadarn.[3] Yn achos Ms Rana mae bron pawb yn llwyddo yn eu harholiadau.

Oni fyddai'n wych pe byddai llawer iawn o athrawon fel Mrs Lewis a Ms Rana yn sydyn. Yn fras, oni fyddai'n nod gwerth chweil, pe byddai athrawon 'da' yn dod yn athrawon 'gwych' a llwyddiannus sy'n falch o fod yn rhan o dîm 'eithriadol'?

Wrth gwrs, mae llawer o ffactorau 'o fewn ysgol' ac 'ysgol-gyfan' sy'n gwneud hynny'n fwy tebygol. Rwyf am ddewis tri yn unig – credoau, gweithredoedd a blaenoriaethau'r pennaeth; amgylchiadau datblygiad proffesiynol; a defnydd doeth o ddata.

Nid yw'n syndod mawr i ddewis ymddygiad y pennaeth fel y pwynt cyntaf. Mae'r ffordd y maent yn cynnal cyfarfodydd staff, nosweithiau rhieni, seremonïau gwobrwyo, cydaddoli yn amlwg yn effeithio'n anghyfartal ar hinsawdd yr ysgol a'r ffordd y mae athrawon yn gweithio. Rwyf wedi gweithio yn Birmingham ac yn Llundain lle mae'r ysgolion hynny sy'n llwyddo er gwaethaf anfanteision (enbyd yn aml) yn cael eu harwain gan bobl sydd fel Mrs Lewis a Ms Rana yn credu yn addysgadwyedd diderfyn eu holl ddisgyblion. Mae ganddynt system werthoedd glir sy'n cael ei hadlewyrchu yn eu gweithredoedd. Maent yno pan mae eu hangen. Maent wrth y glwyd, ar y stryd ac yn mynd â'r plant hynny nad ydynt am godi yn y bore i'r ysgol i adolygu. Maent yn ysbrydoli trwy esiampl. Maent yn addysgu. Maent yn dysgu. Maent yn rhoi clod i eraill ac yn derbyn y bai. Maent yn optimistaidd, yn hapus a heb hunandosturi. Maent yn credu eu bod yn ffodus i fod yn yr ysgol ar yr adeg honno. Maent yn gofalu'n dyner am staff trwy weithredoedd caredig annisgwyl. Maent yn meithrin 'etifeddiaeth' ac yn hyrwyddo hiwmor da, hyd yn oed – yn enwedig, efallai – mewn argyfwng. Mae disgwyl iddynt hwy, fel Ms Rana a Mrs Lewis ddweud stori yn fedrus. Maent hwy hefyd yn gofyn mwy o gwestiynau nag yn rhoi atebion. P'un a ydynt yn bobl 'flaenllaw' neu 'dawel', mae ganddynt hygrededd ac yn mynnu parch oherwydd eu hymrwymiad. Maent hwy hefyd yn credu mewn trawsffurfio eu disgyblion. Maent

hwy hefyd yn gwneud y broses addysgol gyfan yn bersonol yn hytrach nag yn amhersonol.

Yn ail ym mater datblygiad proffesiynol, mae athrawon wedi symud ymlaen o gyngor enwog Judith Little am 'athrawon yn siarad am addysgu' i gynnwys yr holl staff a'r disgyblion.
Felly:

- mae staff yn siarad am ddysgu ac addysgu – mewn cyfarfodydd cyfadran a chyfarfodydd staff nad ydynt yn cael eu gorlwytho gan fusnes.
- mae staff yn arsylwi arferion ei gilydd – trwy hawliau i ddefnyddio amser i arsylwi arferion ei gilydd yn ofalus ac mewn ffordd wedi'i ffocysu yn eu hysgol eu hunain neu mewn ysgolion eraill.
- mae staff yn cynllunio, yn trefnu ac yn gwerthuso eu gwaith gyda'i gilydd mewn timau – trwy swydd-ddisgrifiadau sy'n canolbwyntio ar brif gyfrifoldebau a chyfrifoldebau cefnogi yn hytrach na set o dasgau rheoli, a thrwy lawlyfr staff sy'n dyst i wahaniaethu wedi ei ystyried yn ofalus o ran pwy sy'n gyfrifol am bolisi, y tasgau i gyflawni'r polisi hwnnw gydag amserlen ar gyfer hunanadolygiad – mewn timau.
- mae staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn addysgu ei gilydd – trwy gyfarfodydd staff sy'n cael eu cylchdroi o amgylch yr ysgol, trwy gynnwys ac agendâu'r cyfarfodydd hynny, trwy raglen o ddatblygiad proffesiynol yn yr ysgol sy'n cael ei chyflwyno gan yr ysgol, trwy ddau neu fwy o aelodau staff (byth un) yn mynychu cyfarfodydd proffesiynol allanol.

  Yn drydydd ac yn olaf mae'r ysgol yn defnyddio data yn ddoeth. Rydym yn byw mewn oes mor gyfoethog o ran data y mae mor hawdd bod â diffyg gwybodaeth. Felly mewn ysgolion eithriadol mae defnyddio'r data o'r gwaelod i fyny am blant, eu cefndir, cyfnod eu datblygiad yn cynorthwyo gobeithion eu hathrawon am gynnydd cynnil ac uchelgeisiol sy'n cael ei drosi'n dargedau sef stoc crefft athrawon sy'n croesawu asesu ffurfiannol. Caiff y rhain eu hategu neu eu

gorchfygu gan wybodaeth ehangach am gyflawniadau ysgolion neu athrawon eraill naill ai gyda'r un bobl ifanc neu rai tebyg. A'r dyddiau hyn gall hyn oll fod ar gael trwy'r technolegau rheoli mewn ffordd ddiffwdan a difiwrocratiaeth.

Felly dyna'r amgylchiadau lle mae Ms Lewis a Ms Rana yn ffynnu – lle mae eu henghreifftiau'n arwain at weld athrawon eraill sy'n ddigon dewr i fentro gwerthuso eu harferion a newid cymdeithas trwy wneud hynny.

Dyma'r athrawon yr wyf yn eu cydnabod ac yn eu dathlu heddiw. Nhw yw penseiri yfory.[4]

[1] Yn un ar ddeg oed fe es i ysgol ramadeg fawreddog yng Nghanolbarth Lloegr. Fy nghof yw bod yr ysgol yn llwyd; yr hydref yn wlyb; trefn dosbarth bob wythnos; yr holl athrawon nid yn unig yn athrawon newydd ond hefyd o'r farn na ddylent wenu tan y Nadolig. Daeth yr ysgol yn beth wrthun i mi – roeddwn yn sâl bob bore cyn cael fy ngorfodi yn amharod i fynd i'r ysgol. Yna collodd fy nhad ei swydd. Symudom i Lowestoft – tref dawel ar yr arfordir dwyreiniol lle'r oedd yr ysgol ramadeg yn gydaddysgol, ag iddi emblem yr haul yn codi lle'r oedd y staff a'r disgyblion yn gwenu drwy'r amser. Newidiodd fy mywyd mewn diwrnod. O gasáu'r ysgol symudais i fwynhau bob eiliad ohoni.

[2] Rwyf yn aml yn dweud stori – yn seiliedig ar ymweliad ysgol – o ddosbarth Blwyddyn 6 mewn ysgol gynradd yng nghanol Birmingham lle'r oedd yr athro wedi rhannu'r dosbarth yn grwpiau cyfochrog gan ddefnyddio'r saith gair cwestiwn ('Pam', 'Beth', 'Pwy', ac ati). Yna fe wnaeth eu cynnwys wrth archwilio darn o ysgrif i ganfod cymaint o gwestiynau trefn gyntaf ('ffaith'); cwestiynau ail drefn ('casglu'); cwestiynau trydedd drefn 'syndod' a chwestiynau pedwaredd drefn ('damcaniaeth'). Roedd yn ei helpu, dywedodd, gyda gwaith grŵp.

[3] Yn Birmingham yn y 1990au cyn y strategaeth rhifedd a llythrennedd cyflwynwyd cynllun i ddathlu cynnydd mewn darllen a rhifedd. Dyfarnwyd tystysgrifau ar gyfer darllenwyr 'Addawol', 'Prentis', 'Rhugl', 'Profiadol' a 'Chadarn'. Yma yn Atodiad 2 rwy'n ailadrodd y disgrifiad o 'Ddarllenydd Cadarn' i roi blas o'r amser pan oeddem yn hamddenol ynghylch ein cynnydd.

[4] Mae fy nyled yn fawr i filoedd o athrawon yr wyf wedi cael cipolwg ar eu harferion, yn bennaf yn Swydd Derby, Sir Fynwy, Swydd Buckingham, Swydd Rydychen, Swydd Stafford, Sir Amwythig, Llundain ac yn Birmingham yn arbennig – a Margaret Lewis a Saima Rana, wrth gwrs. Os nad ydwyf wedi llwyddo i gyfleu eu dawn a'u gallu anhygoel yn y papur hwn, fy mai i yw hynny, nid eu bai hwy.